

Amserlen diwygiedig ar gyfer ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar gyfer y Bil Masnach

Tachwedd 2020

Ar 10 Tachwedd 2020 cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 29.4(i), i wahodd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i ystyried a chyflwyno adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar gyfer y Bil Masnach.

Yn unol â Rheol Sefydlog 29.4(ii), cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgorau gyflwyno adroddiad i'r Senedd erbyn 18 Rhagfyr 2020.

Yn eu cyfarfod ar 24 Tachwedd 2020, cytunodd y Rheolwyr Busnes i newid y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad i 11 Rhagfyr 2020, yn sgil newidiadau i'r amserlen seneddol yn San Steffan.

